Y Cyngor Lleol, yr Ardal Leol ac Ansawdd Bywyd

Pa bryd cynhaliwyd yr arolwg?

Chwefror 2013

Beth oedd pwrpas yr ymgynghoriad hwn?

Ymgynghori gyda thrigolion Wrecsam ynglŷn â'u canfyddiadau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, yr ardal leol ac ansawdd bywyd.

A roddwyd adborth i'r cyfranogwyr?

Rhoddwyd adborth i aelodau panel Llais y Bobl.

Sut rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad?

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad drwy Lais y Bobl.

Faint o ymatebion gafodd yr ymgynghoriad?

Cwblhawyd 314 arolwg gan roi cyfradd ymateb o 56%.

Sut defnyddiodd CBSW y canlyniadau a pha newidiadau, os o gwbl, a wneir yn dilyn yr ymgynghoriad hwn?

Mae'r canlyniadau'n dangos bod cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor wedi dod yn haws i gwsmeriaid dros y blynyddoedd diwethaf ac ers datblygu Siop Un Alwad y Cyngor a'r Ganolfan Alw. Byddwn yn parhau i ymestyn y gwasanaethau sydd ar gael drwy'r Canolfannau hyn. Byddwn yn edrych hefyd ar y gwasanaethau ar ein gwefan gyda'r nod o wneud mynediad yn haws eto.

Eich Cyngor Lleol

- Mae tua dwy ran o dair o drigolion (66%) yn fodlon gyda'r ffordd y mae CBSW yn rhedeg pethau, a dim ond 15% sy'n anfodlon



- Mae cyfran debyg (65%) o drigolion yn cytuno bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd dda; 13% yn anghytuno.



- Gofynnwyd i aelodau'r panel pa wasanaethau, os o gwbl, a ddarperir gan CBSW roedden nhw'n meddwl oedd yn arbennig o dda. Mae'r atebion a roddwyd amlaf yn cynnwys gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu a llyfrgelloedd.

- Gofynnwyd i aelodau'r panel pa wasanaethau, os o gwbl, a ddarperir gan CBSW roedden nhw'n meddwl oedd yn arbennig o wael. Mae'r atebion a roddwyd amlaf yn cynnwys cynnal a chadw ffyrdd a phriffyrdd, cynllunio a chlirio strydoedd.

- Mae dwy ran o bump (40%) o drigolion yn cytuno bod y Cyngor yn dda am adael i bobl wybod sut mae'n perfformio, a chwarter (25%) yn anghytuno ynglŷn â hyn. Ond, mae

tua thair rhan o bump (61%) o drigolion yn cytuno yr hoffent gael mwy o wybodaeth - ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn perfformio; mae llai na (15%) yn anghytuno gyda hyn. -



- Mae bron i draean (31%) y trigolion yn fodlon gyda'r cyfleoedd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn eu cynnig ar hyn o bryd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau lleol. Ond, mae cyfradd ychydig yn fwy o drigolion (33%) yn anfodlon gyda'r cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd.



- O ran gwneud penderfyniadau'n lleol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae llai nag un rhan o bump (18%) o drigolion yn cytuno y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol, tra mae dros hanner (56%) yn anghytuno. Mae tua chwarter y trigolion yn cytuno bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i farn trigolion wrth wneud penderfyniadau (26%) a bod y Cyngor yn gweithredu ynglŷn â phryderon trigolion (24%).

- Ond, mae bron i dri chwarter y trigolion (73%) yn cytuno yr hoffent chwarae mwy o ran yn y penderfyniadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud sy'n effeithio ar yr ardal leol; dim ond un ym mhob ugain (5%) sy'n anghytuno a hyn.



- Mae tua thri chwarter (74%) y trigolion wedi pleidleisio mewn etholiad cyffredinol, cenedlaethol neu leol yn ystod y deuddeg mis diwethaf, ac roedd dros ddwy ran o bump (42%) wedi arwyddo deiseb. Mae rhwng un rhan o bump a dwy ran o bump o'r trigolion wedi cynnig cymorth yn ddi-dâl i grwpiau, clybiau neu sefydliadau (37%), wedi cysylltu â gwleidydd lleol (35%), wedi cymryd rhan mewn dysgu ffurfiol neu anffurfiol (31%) neu wedi cysylltu gyda Swyddog Llywodraeth Leol (21%). Ond, mae 15% o'r trigolion heb gymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithgareddau a restrir yn ystod y 12 mis diwethaf.



- O ran cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor, mae tua phedair rhan o bump o'r trigolion (81%) yn cytuno eu bod yn ei gweld yn hawdd cysylltu â'r Cyngor. Mae rhwng tair rhan o bump a thri chwarter yn cytuno eu bod yn ei chael yn hawdd cael mynediad at wybodaeth ynglyn a'r Cyngor (72%), eu bod yn ei chael yn hawdd cael mynediad at wasanaethau penodol o fewn y Cyngor (63%) a bod y Cyngor yn eu trin gyda pharch (61%).



Eich ardal leol

- Mae mwy na thair rhan o bump o'r trigolion yn cytuno bod eu hardal leol yn rhydd o graffiti a fandaliaeth (71%), yn ddiogel i blant chwarae allan (63%) a bod system drafnidiaeth dda ar gael (63%).

- Ond, mae llai na hanner y trigolion yn cytuno bod eu hardal leol yn rhydd o sbwriel (49%) a bod eu hardal leol yn rhydd o draffig trwm (36%). Mae mwy na dwy ran o bump (44%) yn anghytuno bod eu hardal leol yn rhydd o draffig trwm.



Ansawdd eich bywyd

- Mae tri chwarter (75%) y trigolion yn fodlon gyda Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel lle i fyw ynddo, lle mai dim ond 1 ym mhob 10 (10%) sy'n anfodlon.



- Mae 7 ym mhob 10 (70%) o'r trigolion yn nodi bod ansawdd bywyd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn dda. Mae 13% o'r trigolion yn nodi bod ansawdd bywyd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn wael.



- Mae tua hanner (48%) y trigolion yn teimlo bod ansawdd bywyd wedi aros yr un fath ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam dros y pedair blynedd diwethaf; ond mae bron i ddwy ran o bump (37%) yn teimlo ei fod wedi gwaethygu, a dim ond 15% sy'n teimlo ei fod wedi gwella.



- Pan ofynnwyd beth fyddai'n gwella ansawdd bywyd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, roedd yr atebion a gafwyd amlaf yn cynnwys gwella canol y dref, yn enwedig y siopau; gwella ffyrdd a thrwsio ffyrdd; a chyfleusterau parcio gwell.

- Yn gyffredinol, mae bron i hanner (47%) y trigolion yn nodi bod Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn lle da i ymweld ag ef, er bod bron i draean (31%) yn nodi ei fod yn wan yn hyn o beth.


gwael iawn
7%
Da iawn
14%
gweddol wael
24%
Eithaf da
34%
Ddim yn dda nac
yn wael
21%